CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

ASESIAD RISG SYDD EISOES YN WEITHREDOL GAN Y CYNGOR

1. Cyllid y Cyngor

Y Praesept – ystyried y gofynion am y flwyddyn ariannol ddilynol er sicrhau fod digon y gyllid ar gael i dalu am farbio tiroedd y Cyngor, cyfraniadau ariannol o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol, hysbysebu fel bo'r angen, cyflog a chostau'r Clarc a sicrhau fod cyllid wrth gefn petai'r gofyn yn codi yn ystod y flwyddyn ariannol.

Cyfraniadau o dan Adran 137 o Ddeddf Llywodraeth Leol – atgoffa'r aelodau o'u hawliau i gyfrannu ac os oes amheuaeth yna cysylltu â Un Llais Cymru er derbyn eu sylwadau a'u harweiniad. Sicrhau hefyd na fydd gwariant mwy nag a ganiateir o dan yr Adran yn digwydd.

Arwyddo sieciau – sicrhau fod y Cyngor yn rhoi awdurdod i dalu pob archeb a dderbynir, neu yn ystod mis Awst fod y Cadeirydd yn awdurdodi'r taliad ond i adrodd yn ôl ym mis Medi i'r Cyngor llawn. Sicrhau fod y Clarc a dau aelod o'r Cyngor yn arwyddo pob siec a basiwyd i dalu'r archeb amdano ac yn rhoddi eu 'initials' ar y bonyn i gadarnhau'r taliad. O berthynas i daliad i'r Clarc fod tri aelod (ac nid y Clarc) yn arwyddo'r siec(iau) hynny ac yn rhoddi eu 'initials' ar y bonyn unwaith yn rhagor.

Amcangyfrif – fod y Clarc yn cyflwyno i'r Cyngor dair gwaith y flwyddyn gyfrif o'r hyn a wariwyd a'r hyn a fydd yn rhagweld fydd ei angen hyd ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Diwedd y flwyddyn ariannol – fod y Clarc i gyflwyno adroddiad o'r sefyllfa ariannol i'r Cyngor yn dangos yn union beth a dalwyd a beth a wariwyd yn ystod y flwyddyn. Rhaid i'r Cyngor fabwysiadu'r fantolen neu ei chywiro fel bo'r angen.

Ad-hawlio TAW – cwblhau ffurflen i ad-hawlio TAW os yw'r swm yn cyfiawnhau hynny neu ei adael am flwyddyn arall i'w hawlio.

2. Yswiriant

Rhaid sicrhau fod yswiriant priodol gan y Cyngor ar gyfer holl eiddo'r Cyngor, y cyhoedd, aelodau'r Cyngor a'r staff.

3. Gwahodd Tendrau

Rhaid gwahodd tendrau am unrhyw waith a ymgymerir gan y Cyngor a sicrhau fod y geiriad 'TENDR' i fod ar bob ymgais a dderbynir gan Ymgymerwyr. Ni fydd yr amlen gyda'r gair 'TENDR' yn cael ei hagor hyd nes bydd yr eitem yn cael ei hystyried gan y Cyngor.
Ni fydd rheidrwydd ar y Cyngor i dderbyn y tendr isaf ond rhaid cofnodi y rhesyma am wrthod y tendr isaf. Mae'n ofynnol fod gan yr Ymgymerwr bolisi yswiriant cyfredol ar gyfer y gwaith a rhaid cael copi o'r cyfryw ar y ffeil.

4. Archwilio eiddo'r Cyngor

Bydd y Cyngor yn penodi un aelod i wneud arolwg o holl eiddo'r Cyngor bob chwe mis a bydd cofnod ysgrifenedig o bob archwiliad yn cael ei drosglwyddo i'r Clarc.
Llwybrau cyhoeddus – cyfrifoldeb aelodau pob Ward fydd gwneud arolwg o'r llwybrau sydd angen sylw ac adrodd i'r Cyngor.

Mabwysiadwyd yr uchod yng nghyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd 9fed Mawrth, 2020, ynghyd a'r Rheolau Sefydlog, Rheoliadau Cyllidol a thabl o asesiad risg.
Nodwyd ymhellach fod Y Cynghorydd Glyn Roberts wedi ei benodi i wneud archwiliadau o eiddo'r Cyngor yn unol a rheol 4 uchod.

Mae'r Cyfarfod Blynyddol yn ei gyfarfod 13eg Mai, 2024 wedi mabwysiadu'r asesiad risg fel y'i nodir uchod.

Eto bu i'r Cyfarfod Blynyddol yn ei gyfarfod 12fed Mai, 2025, fabwysiadu'r asesiad fel y'i nodir uchod.

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG – ASESIAD RISG

Amcan beth yw'r risg: Sgôr am yr effaith o'r hyn a all ddigwydd 1 - 5
Sgôr o'r tebyglorwydd o'r hyn all ddigwydd 1 – 5
Sgôr am lefel llymder -
Yr hyn all ddigwydd x tebygolrwydd

Dosbarthiad 1- 5 Isel
6 – 10 canolig
11 – 15 Uchel
16 – 25 Uchel iawn

Y Pwnc	Y Risg a welwyd	Risg a all ddigwydd	Tebygolrwydd	Sgor llymder	Dosbarthiad	Mesurau i'w cymryd er lleihau/cwtogi/rheoli risg
Incwm Precept		5	1	5	Isel	Y Clarc yn paratoi adroddiad ar yr hyn a wariwyd/dderbyniwyd a'r hyn a ragwelir fydd ei angen ym mis Rhagfyr/Ionawr ymhob blwyddyn ariannol. Y Cyngor yn ystyried yn flynyddol faint o arian fydd ei angen pan yn cyflwyno eu praesept. Gwneir hyn ym mis Rhagfyr/Ionawr yn flynyddol. Y Clarc i gyflwyno'r praespet ym mis Rhagfyr/Ionawr.
	Cyngor Gwynedd heb Dalu	5	1	5	Isel	Y praesept yn cael ei dalu mewn dau randaliad drwy BACS i'r cyfrif yn y Banc – mis Ebrill a mis Awst yn flynyddol.
	Rhy ychydig o braesept	5	1	5	Isel	Y Clarc i gyflwyno adroddiad yn achlysurol o'r sefyllfa ariannol.
Taliadau Claddu	Dosbarthu lle bedd	5	1	5	Isel	Cedwir cofrestr o'r beddau – mae oll o'r plotiau yn mynd yn eu trefn ac ni chaniateir lle cadw.
	Casglu taliadau am Gladdu/cofrestru a mynd a Chofebau i'r Fynwent	5	1	5	Isel	Yr Ymgymerwyr yn gofyn caniatad am gladdu ac yn cyflwyno eu taliadau a'r dystysgrif marwolaeth i'r Clarc noson yr angladd. Yr Ymgymerwyr fydd yn mynd a'r cofebau i'r Fynwent yn gofyn am ganiatad y Clarc cyn mynd ac yn talu yn syth wedi gosod y garreg. Y Clarc i fonitro pob claddegiaeth/mynd a chofeb i'r Fynwent.
	Adolygu ffioedd	3	1	5	Isel	Y Cyngor i adolygu'r ffioedd bob dwy flynedd a hynny yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

	Bancio'r ffioedd Archwilio'r cofebau	5	1	5	Isel	Y Clarc i fancio'r sieciau o fewn wythnos i'w derbyn.
Gwahodd tendrau	Tendrau	5	5	6	Canolig	Sicrhau fod y gwahoddiad i gyflwyno tendr yn gofyn i'r Ymgymerwyr roi y gair 'Tendr' ar yr amlen. Yr amlen hwnnw i'w gadw heb ei agor gan y Clarc a'r cyfryw dendrau yn cael eu hagor yng nghyfarfod agored o'r Cyngor. Derbyn y tendr isaf os yn bosibl ond os na ellir gweld y ffordd yn glir i wneud hynny rhaid nodi yn y cofnodion y rhesymau dros beidio.
Colli arian	Rhwystr mewn busnes	5	2	10	Canolig	Heb yswirio – y Cyngor i'w ystyried
	Cario arian	5	3	15	Uchel	Heb yswirio – y Cyngor i'w ystyried
	Ar y safle	5	3	15	Uchel	Heb yswirio – y Cyngor i'w ystyried
	Drwy dwyll neu ddwyn	5	2	10	Uchel	Y swm a yswirir ar hyn o bryd yw £7,000 ond i'w adolygu yn flynyddol ym mis Mehefin
Benthyca	Ni fenthycir unrhyw arian	5	1	5	Isel	Ystyrir hyn pan yn cyflwyno'r praesept
Arian ar gael	Sicrhau fod cyllid ar gael	5	1	5	Isel	Ystyried pan yn paratoi 'r gyllideb/praesept
Arian wrth gefn	Sicrhau fod cyllid wrth gefn i sicrhau gweithrediad y Cyngor	5	1	5	Isel	Ysytired pan yn paratoi'r gyllideb/praesept
Gwariant						
Pwerau Cyfreithiol	Taliadau angyfreithlon	5	2	10	Isel	Pob taliad i'w gofnodi yn y cofnodion swyddogol a'u harwyddo gan y Cadeirydd. Sicrhau fod pob taliadau yn cydymffurfio a Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol sydd mwen grym. Sicrhau fod y Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol yn cael eu hadolygu yn ystod tymor yr aelodau.
Cyflog/taliadau	Taliadau anghywir	5	2	5	Isel	Y Cyngor i awdurdodi'r cyflog bob chwe mis, Medi a Mawrth yn ystod y flwyddyn ariannol. Y Cadeirydd i wirio' taliadau a gyflwynir gan y Clarc.
TAW	Cofnodi TAW yn anghywir	5	2	5	Isel	Cadw cofnod mewn llyfr pwrpasol.
Cyfraniadau Ariannol	Pwerau Cyfreithiol i	5	2	10	Canolig	Sicrhau fod y Cyngor yn cydymffurfio a rheolau o dan Adran 137 o

	gyfrannu					Ddeddf Llywodraeth Leol 1972
	Cydymffurfio a pholisiau'r Cyngor	5	1	5	Isel	Addysgu/atgoffa'r aelodau o'u hawliau.
	Gorwario	5	2	10	Canolig	Y Clarc i fonitro'r sefyllfa pan yn ystyried ceisiadau.
Costau'r Aelodau	Gofer/tandalu'r aelodau	4	1	5	Isel	Yr aelodau i gwblhau ffurflen hawlio costau/costau teithio.
	Cadw cofnod pwrpasol	3	1	3	Isel	Ffurflenni ar gael yn barod.
Hyfforddi Aelodau					Canolig	Yr aelodau i fynychu cyfarfodydd/cyrsiau fel bo'r gofyn
Hyfforddi'r Clarc					Canolig	Y Clarc i fynychu cyfarfodydd/cyrsiau fel bo'r gofyn
Asedau	Y risg neu ddifrod i eiddo trydydd parti neu unigolyn	4	2	8	Canolig	Yswiriant 'public liability' o £2,000,000 mewn grym I'w adolygu'n flynyddol
	Cofrestru Asedau	5	2	10	Canolig	I'w hadolygu'n flynyddol
	Cynhaliaeth	5	3	15	Uchel	I drwsio fel bo'r angen. Bydd Y Cynghorydd Harry Richards yn archwilio'r lloches bws a'r meinciau bob mis. Gofyn i'r Ymgymerwr Barbio roddi gwybodaeth i'r Clarc os daw ar draws unrhyw anhawster pan yn barbio Comin Bryncroes neu'r llwybrau cyhoeddus.
Staff	Gwaeledd y Clarc	5	5	7	Canolig	Aelod o'r Cyngor yn barod i weithredu petai'r Clarc yn wael fel sydd eisioes wedi digwydd yn y gorffennol.
Y Fynwent	Disgwyliadau ar gyfer y Dyfodol	5	1	5	Isel	Digon o dir ar gael am 30 mlynedd.
	Cofebau – diogelwch	5	2	5	Isel	Gan mai mynwent cymharol newydd sydd yma ac ychydig o gofebau mae'r risg yn isel, ond mae Is-bwyllgor y Fynwent wedi penodi aelodau i'w harchwilio yn fisol a chedwir cofnod o'r darganfyddiadau ac adroddir i'r Cyngor y mis hwnnw.
	Sefydlogrwydd y waliau terfyn, coed a'r cloddiau	5	2	10	Canolig	Mae waliau concrid sefydlog/cryf o amgylch y Fynwent ond mae clawdd terfyn rhwng y ddwy Fynwent. Ysgrifennu at Ysgrifennydd Pwyllgor Cyfeillion Eglwys Llandegwnning yn gofyn iddynt archwilio'r clawdd terfyn ar y cyd gydag aelodau o'r Cyngor a hynny yw wneud yn flynyddol ym mis Mehefin..
Meinciau	Archwilio meinciau ar gyfer eu sefydlogrwydd	5	2	10	Canolig	Archwilio'r meinciau ar gyfer eu sefydlogrwydd. Penodwyd aelod o'r Cyngor i archwilio'r meinciau hyn yn fisol a bydd eitem ar raglen y Cyngor yn fisol er ei allugoi i adrodd yn ôl ar ei ddarganfyddiadau.
Ymgynghoriad	Cyfarfod amseroedd penodedig	3	2	4	Isel	Y Clarc mewn ymgynghoriad a'r Cadeirydd i benderfynu a fydd angen galw cyfarfod arbennig o'r Cyngor os byddai mater o frys yn codi.
Cadw Dogfennau'n Ddiogel	Y sefyllfa fel ac y mae ar hyn o bryd	5	2	6	canolig	Cedwir holl ddogfenau'r Cyngor mewn cabinet dur.

Cofnodion	Cywir a Chyfreithlon	5	1	5	Isel	Cyflwyno, cadarnhau a'u harwyddo mewn cyfarfod o'r Cyngor.
Asesiad Risg a Diogelwch	Methiant i adnabod perygl	5	5	15	Canolig	Bwriedir edrych ymhellach i hyn yn y dyfodol.
Anableddau	Methiant i adnabod	5	1	5	Isel	Mae'r Cyngor yn cynnal ei holl gyfarfodydd mewn canolfannau lle mae mynediad a phob hwyluster ar gyfer yr anabl.
Cofrestr o Ddiddordeb Aelodau, Anrhegion	Angen i adnabod pan fo gan yr aelod ddiddordeb mewn eitem and i gofnodi hynny. Hefyd derbyn anrheg/lletygarwch	3	1	3	Isel	Nodi'r yn y cofnodion pan fo gan aelod ddiddordeb a chwblheir ffurflen gan yr aelod gan ei harwyddo.
Côd Ymddygiad	Mabwysiadu'r Côd	5	1	5	Isel	Y Côd wedi ei fabwysiadu a'r aelodau wedi datgan hynny drwy arwyddo ffurflen sydd ar gael gan y Clarc.
Polisi yr Iaith Gymraeg	Paratoi a sicrhau gweithrediad y polisi	5	2	10	Isel	Polisi'r Cyngor yw i gynnal eu holl weithgareddau yn yr iaith Gymraeg. Yr Agenda a'r cofnodion wedi eu paratoi yn y Gymraeg. Os derbynnir llythyr oddiwrth Gorff Cyhoeddus yn yr iaith Saesneg yna fe'i hanfonir yn ôl gan eu hysbysu na ellir ei drafod gan fod y Cyngor o dan yr argraff fod y Bwrdd Iaith Cymraeg fod pob Corff cyhoeddus yn defnyddio'r iaith Gymraeg ymhob dogfen a gohebiaeth.

Mae'r tabl hwn yn berthnasol i'r Asesiad Risg fabwysiadwyd yn y Cyfarfod Blynyddol diwethaf ar 12fed Mai, 2025.